


DYSGU SGILIAU BYW AR CYFER BYWYD GO IAWN



Mae pobl ifanc Sir Gâr yn credu fod angen eu darparu gyda'r wybodaeth a sgiliau i'w paratoi ar gyfer eu bywydau.

Dyma'r **10 MAES DYSGU** sydd wedi'u nodi fel y pwysicaf yn dilyn Cynhadledd Ieuenctid Sir Gaerfyrddin 2018.

1

CYMORTH CYNTAF

Rhoi cymorth cyntaf sylfaenol sydd yn arwain at hyfforddiant CPR a diffibriliwr yn raddol.

2

ARIAN

Sut i reoli cyllid, cyngor morgais, dyled, cyllidebu, treth a phensiynau.

3

SGILIAU CYFATHREBU

Datrys problemau, y gyfraith, hawliau dynol a sgiliau cyfathrebu a all arwain at wneud penderfyniadau ffafriol.

4

IECHYD A LLESIANT

Y gallu i ymdopi â newid, i adeiladu gwytnwch a bod yn barod i ddelio â materion iechyd meddwl a rhywiol. Parch at eich hunan ac at eraill.

5

CYNGOR GYRFA

Sgiliau cyflogadwyedd megis ysgrifennu CV a thechnegau cyfweld.

6

AMRYWIAETH

Ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau, ieithoedd a chrefydd, a hefyd gwahaniaethau pobl.

7

BYW'N ANNIBYNNOL

Sgiliau cartref sylfaenol megis coginio, golchi dillad.

8

ADDYSG WLEIDYDDOL

Codi ymwybyddiaeth well o hawliau plant, i fod yn ddinasyddion gwybodus, i gymryd rhan mewn penderfyniadau am gymdeithas. Deall systemau gwleidyddol a democrataidd, sut i bleidleisio? A phwy sy'n cynrychioli fi?

9

SGILIAU DIY AC YMARFEROL

Datblygu sgiliau ymarferol defnyddiol i gael profiad ymarferol.

10

HUNANDDATBLYGIAD

Gosod amcanion i wella pob agwedd ar fywyd. I fod yn fwy hyderus, datblygu talentau ac edrych ar heriau personol.